CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD MISOL
31ain O FIS IONAWR 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

Cyn dechrau'r cyfarfod bu aelodau'n gwrando ar gynigion Mrs Aynsley Waterman yn ymwneud â Safle'r Hen Ysgol Gynradd. Cafodd rhain eu nodi. Eglurwyd i Mrs Waterman cyn y cyfarfod na fyddai'n bosibl i drafod ei chynigion ar hyn o bryd, oherwydd y byddai'n rhaid ystyried nid yn unig ei chais hi, ond ceisiadau eraill hefyd, ochr yn ochr. Gellir darllen cynnwys ei chyflwyniad mewn dogfen sydd wedi ei lleoli'n Llyfrgell y Dref.

Roedd y Cyng. Dorothy Williams o'r farn na ddylid caniatau'r cyflwyniad ac i nodi hyn yn y cofnodion, er bod trefniadau wedi eu gwneud ar ôl ymgynghori â dau gynghorydd profiadol Cyngor y Dref sef y Maer a'r Cyng. H.Harris, cyn y cyfarfod, yn caniatau Mrs Waterman i fynegi ei sylwadau'n ymwneud â'r Hen Ysgol Gynradd ar yr amod na fyddai trafodaeth yn dilyn (oherwydd y byddai rhaid ystyried cynigion posibl pobl eraill).

1. CROESO'R CADEIRYDD

Estynnwyd croeso cynnes gan y Maer C.Thomas i bawb a oedd yn bresennol.

YN BRESENNOL: Cyng. Maer Chris Thomas (Cadeirydd)
Dirprwy-Faer Cyng. Selwyn Walters,
Cyng. Cecilia Barton, Andrew Carter, Elsie Dafis,
Hazel Davies, John Davies, Margaret Davies-Evans, Greg Evans, Robert (Hag) Harris, Lynda Mason-George, Robert Phillips. Kistiah Ramaya, Dorothy Williams a Derek Wilson.

Mrs Aynsley Waterman, Mr Alan Waterman
Mr Ryan Jones Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH)

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Blismones Jo Grey.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

4.1 Bu yna drafodaeth rhwng Ryan Jones SCCH ac aelodau'r Cyngor Tref.

4.1.1 **Gallai Llambed fod yn gartref i'r Pencadlys Newydd Uned Drafnidiaeth Heddlu Dyfed-Powys**. Penderfynwyd i ysgrifennu atynt i ofyn beth fyddai effaith lleoli Uned Trafnidiaeth yn y dref.

4.1.2 **Apeliodd y Cyng. D.Williams am well cyfathrebu** rhwng yr Heddlu a'r Cyhoedd pan yn ymwneud â throseddau a sut y cânt eu datrys.

4.1.3 **Derbyniwyd Adolygiad Ardal Ddialcohol Aberystwyth Gorffennaf 2007, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion,** yn amlinellu llwyddiant Aberystwyth. Dylai Ardal Ddialcohol Aberystwyth fod yn sbardun ar gyfer gweithredu ardal tebyg yn Llambed. Sicrhaodd SCHH Ryan Jones fod camau gweithredu ar gyfer Llambed yn mynd yn eu blaen.

4.1.4 **Mae galw am barcio ar gyfer yr anabl ar faes parcio'r Rookery**- dylai'r 3 bae parcio nesaf i'r ysgol gael eu clustnodi ar gyfer yr anabl.

4.1.5 **Mae angen Warden Traffig** ar gyfer y dref.

4.1.6 **Asesiad Troseddau ac Anrhefn Ceredigion 2007- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**: Penderfynwyd i flaenoriaethu (1) Yr angen am bresenoldeb gweladwy'r heddlu (2) Diogelwch ar y ffordd a (3) Throseddau Ieuenctid ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

5. ETHOL Y MAER A'R DIRPRWY-FAER AR GYFER Y FLWYDDYN FWRDEISTREFOL NESAF

Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd hyd nes y cyfarfod nesaf.

6. CADARNHAU COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd 29/11/2007, 27/12/2007 a 10/01/2008 fel rhai cywir.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION

7.1 **Cae Chwarae'r Hen Ysgol Gynradd**: Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am ymateb yn ymwneud â llogi'r Cae, fel amwynder ar gyfer trigolion y dref.

7.2 **Parc Sglefrio Llambed:** Derbyniwyd e-bost oddi wrth Patrick Cockburn mewn perthynas â sefydlu Maes-Sglefrio yn Llambed. Penderfynwyd i gysylltu â'r Cyng. Ifor Williams i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i'r Clwb Pêldroed i ryddhau darn o dir gyda'r bwriad o godi maes-sglefrio.

7.3 **Trafnidiaeth Canolbarth Cymru; Ymgynhoriaeth Strategaeth Trafnidiaeth;** Trafnidiaeth Canolbarth Cymru neu TraCC yw'r Consortiwm Cludiant Rhanbarthol sydd â dyletswydd i baratoi Cynllun a wnelo â chludiant. Gwahoddir Cyngor y Dref ynghyd â Chynghorau Lleol eraill i ymateb i'r Ymgynghoriad yn ymwneud â'r Cynllun. Mae'r Cynllun Drafft yn cynnwys nifer o elfennau arwyddocaol i Lambed sy'n cael ei nodi fel lleoliad allweddol yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r hyn sydd yn dilyn yn bwyntiau ddylai gael eu nodi'n fanwl ar gyfer Llambed:

7.3.1 Mae cynlluniau traddodiadol cludiant o ddefnydd yn bennaf ar gyfer trefi ac nid yn addas i gwrdd ag anghenion cludiant Canolbarth Cymru.

7.3.2 Dylai Ffyrdd-o-Amgylch gael eu darparu ar gyfer trefi prysur.

7.3.3 Gwelliannau ar gyfer y Gwasanaeth Bws Traws Cambria gan gynnwys y defnydd o docynnau cyfnewidiol â threnau.

7.3.4 Diogelu hen draciau reilffyrdd.

7.3.5 I flaenoriaethu'r ddarpariaeth o lwybrau cerdded a seiclo yn enwedig ar gyfer datblygiadau newydd.

7.3.6 Lleihau'r angen i deithio.

7.3.7 Archwilio'r opsiwn ar gyfer gwasaneth trên yn rhedeg o Abertawe i Aberystwyth a thrwy Llambed.

7.3.8 Datblygu canolbwyntiau llwythi (freight) gyda'r bwriad o dadlwytho oddi ar heolydd ac i drenau.

Cytunwyd y byddai'r Cyng. Rob Phillips yn ymateb i'r Ymgynghoriad ar ran y Cyngor Tref.

7.4 **Y Ganolfan Alw-mewn Llambed datblygiadau pellach:** disgwylir i'r wasanaeth ddod i rym yn fuan dan arweiniad y Gwasaneth Cymdeithasol CSC yng nghartref Llys Steffan. Gobeithir cynnal Cyfarfod Cyhoeddus i drafod y mater ymhellach ac i ddod o hyd i wirfoddolwyr.

7.5 **Trefniadau Cittaslow** y sefyllfa bresennol: dim datblygiadau yn hyn o beth yn bresennol.

7.6 **Cyfarfod Pwyllgor Ceredigion Un Llais Cymru**: Derbyniwyd yr adroddiad ar lafar a baratowyd gan y Cyng. D.Williams parthed y cyfarfod a fynychwyd ganddi ar 21ain Ionawr. Trafodwyd materion yn ymwneud â Consortiwm Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC), Gwasaneth Ambiwlans; Shelter Cymru; Ffliw Adar a Gwasanaethau Bysiau. (mae cofnodion y cyfarfod yma ar gael yn Llyfrgell y Dref). Adroddodd fod Mr John Lumley yn gorffen yn ei swydd fel Swyddog Datblygu yn y Canolbarth, Un Llais Cymru. Penderfynwyd i ddiolch iddo am ei gyngor a chefnogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

7.7 **Teulu Kakitsuka Datblygiadau parthed y fainc**: adroddodd y Cyng. R.Phillips ei fod ef a'r Cyng. Ifor Williams wedi cyd-osod a lleoli'r fainc tu allan i'r fynwent ar gyrion y dref ar yr A475 Heol Llanwnnen.

7.8 **Lle parcio ar gyfer bws**: gohebiaeth oddi wrth Kevin Alldritt, Adran y Priffyrdd CSC yn cyfleu y rhoddir ystyriaeth i'r ddarpariaeth o faes-parcio ar gyfer bysiau pan fydd adnoddau'n caniatau.

7.9 **Trwsio'r Hysbysfwrdd**: Cytunodd y Cyng. D.Wilson i atgyweirio'r hysbysfwrdd ger Llyfrgell y Dref.

7.10 **Lleoliad Cyfarfodydd**: penderfynwyd i wneud ymholiadau a wnelo â dichonoldeb lleoliadau o fewn y dref.

8. GOHEBIAETH
Cofnod 60/2007

8.1 **19/02/2008 Cyfarfod Ymgynghorol CSC** Cyfle i godi materion o bryder lleol gyda chynrychiolwyr y CSC. Cwestiynau i'w cyflwno ymlaen llaw yn cynnwys (1) Angen Arolwg Llawn o'r Drafnidaeth yn y dref (2) Cynigion ar gyfer yr Hen Gae Chware'r Ysgol Gynradd (3) Cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ymwneud â Neuadd Fictoria.

8.2 **Cynllun Gweithgarwch Corfforol Ceredigion 2007-11**: er gwybodaeth

8.3 **Ymgynhoriad ar y Datganiad Technoleg Rhanbarthol Drafft CSC:** er gwybodaeth

8.4 **Y Pwyllgor a'r Is-Bwyllgor Safonau Restr o ddyddiadau cyfarfodydd CSC**: er gwybodaeth yn unig.

8.5 **5/04/2008 Seminar: "Sicrhau Cyngor Ieuenctid Llwyddiannus"** Cyngor Ieuenctid Rhydaman ac Un Llais Cymru: penderfynwyd i enwebu'r Cyng. Elsie Dafis a Lynda Mason-George ar gyfer y seminar**,** petai lleodd gwag yn bodoli.

8.6 **Llogi Cae'r Bryn: llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Brifysgol Llambed:** mae'r cytundeb llog presennol ar ei ail flwyddyn allan o 3. Penderfynwyd i gyfleu'r Coleg fod diddordeb gan y Cyngor Tref mewn llogi'r cae ac iddynt

hysbysu'r Cyngor Tref yn ystod yr amser pan fydd gwahoddiadau ar gyfer ei ail-logi'n cael eu hystyried.

8.7 **Llythyr oddi wrth from Elin Jones AC**: yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i aelodau'r Cyngor Tref a bod croeso i'r Cyngor Tref neu aelodau unigol Cyngor y Dref i gysylltu â hi yn ystod y flwyddyn nesaf am gyngor .

8.8 **Seminar Hyfforddiant Cynllunio ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref:** er gwybodaeth

8.9 **Seminar ar ddelio â chwynion 14/02/2008 Ombudsman & Un Llais Cymru:** er gwybodaeth.

8.10 **Cau Ffordd Dros Dro:** Y Briffordd Gyhoeddus rhwng Teras-yr-Orsaf a Stryd y Felin, Llanbedr PS o 8:00 Ionawr 7fed hyd 17:00 Ionawr 11eg 2008: er mwyn gwarantu diogelwch y cyhoedd am y cyfnod yma.; er gwybodaeth.

8.11 **Llythyr o ymddiswyddiad Mr Robert Thomas:** Archwiliwr Mewnol Cyngor Y Dref: Penderfynwd i ddiolch iddo am ei wasanaeth a ceisio dod o hyd i archwiliwr cymwys arall.

8.12 **Dathlu'r Nadolig**: Llythyr oddi wrth y Siambr Fasnach, Llambed yn diolch i aelodau am gyfrannu taug at Ddathliadau'r Nadolig ar Nos Iau 13eg Rhagfyr 2007. Penderfynwyd i longyfarch y Siambr Fasnach am drefnu'r "Dathliad o'r Nadolig 2007". Dangosodd y deithlyfr fod nifer o fudiadau wedi cyfrannu tuag at lwyddiant yr Ŵyl, o dan eu harweiniad.

8.13 **Efeillio'r Dref:** derbyniwyd copi o'r llythyr a anfonwyd gan Gymdeithas Efeillio Llambed i'r CSC yn dymuno arddangos arwyddion ar fynediadau i'r dref yn datgan efeillio â St Germain sur Moine. Penderfynwyd i anfon llythyr o gefnogaeth at y Cyngor Sir.

8.14 **Cystadleuaeth Rhwng Cymunedau 2008:** er gwybodaeth.

8.15 **Gohebiaeth Eraill:** er gwybodaeth yn unig.

9. MENTER LLAMBED
Cofnod 61/2007

I dderbyn yr adroddiad misol oddi wrth y Cyng. G.Evans:

9.1 Mae'r gweddill yr arian a dderbyniwyd oddi wrth Cyngor Chwaraeon Cymru (Cymhorthdal gwreiddiol o £25,000) ar ôl prynu offer Cadw'n Heini'n Parc-yr-Orsedd wedi ei wario ar Flociau Craig a Gorwynebau Diogelwch heb TAW. (Croes-cyfeirio: 12:1:2)

9.2 Mynedfeydd i Lambed: Canlyniadau'r Ymgynghoriad, David Morgan Arweinydd y Cynllun Prosiect Mynedfeydd Llambed: er gwybodaeth yn unig.

9.3 Trac Rhedeg: Mae Llambed yn un o'r lleoedd, gan gynnwys Aberystwyth ac Aberteifi sy'n cael ystyriaeth ar gyfer lleoli Trac Rhedeg Mabolgampau 400metr.

9.4 Diolchodd y Cyng G.Evans i'r Cyng. R.Phillis am lenwi'r bylchau ar adran Cyngor Tref Llambed, Safle ar y We Menter Llambed. Mae'r cofnodion Cyngor y Dref yn gyflawn ar hyn o bryd.

9.5 Penderfynwyd i wahodd Jen Jones a Roger Clive-Powell, Cwiltiau a Blancedi Cymreig i'r cyfarfod nesaf Cyngor y Dref.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO

10.1 CANIATAD CYNLLUNIO

Adroddwyd fod y ceisiadu canlynol wedi'u caniatau gan y Cyngor Sir.

Rhif y Cais:	Ymgeisydd:	Lleoliad:	Manylion:
A070906AV	CWS Manwerthu Gwasanaethau Ariannol	Archfarchnad Co-op Heol-y-Bont Llanbedr PS	Arddangos Arwyddion
A070646	Mrs AD Lloyd Llys Teifi Stryd Newydd Llambed	Tir gerbron Llys Teifi Stryd Newydd Llanbedr PS	Codi tŷ (adnewyddu caniatâd cynllunio amlinellol A040606)
A071178	Mr G Jones Arwel Felinfach Llanbedr PS	Yr Hen Ladd-dy Heol Llanfair Llanbedr PS	Newid defnydd i orsaf profi MOT a garej trwsio
A071166	Mr D Evans Gwinnant Cribyn Llanbedr PS	Tu ôl i 10 Stryd y Coleg Llanbedr PS	Fflat newydd
A070874	Davies & Potter 20 Stryd y Bont Llanbedr PS	20 Stryd y Bont Llanbedr PS	Ffrynt Siop newydd

10.2 Derbyniwyd un cais fel a ganlyn:

Applic. No	Applicant & Location	Application Details:	Sylwadau'r Cyngor Tref:
A071346	Edwin Mellen Press Cyf Uned17 Stâd Diwydiannol Llambed Heol Tregaron Llambed	Newid defnydd o salon harddwch i swyddfa	Derbyniwyd

10.3 Seminar Hyfforddiant Cynllunio ar Gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref Un Llais Cymru: 13/02/08: penderfynwyd i enwebu'r Cyng. C.Barton.

10.4 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – Cytundeb Cyflawni Cyngor Sir Gâr – Cytunwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymu : Awst 2007: er gwybodaeth

10.5 Cynllun Datblygu Lleol: Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol: Ymgynghoriaeth: Mae'r Cyngor Sir Ceredigion yn datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd. Mae'r cyfnod "cwmpasu'n" ffurfio rhan o'r broses. Unwaith y bydd Cynllun Datblygu wedi cael ei fabwysiadu, bydd penderfyniadau ynglŷn â chaniatâd cynllunio am y 15 mlynedd nesaf yn cael eu seilio yn bennaf ar ei gynnwys. Penderfynwyd i beidio ag ymateb i'r Ymgynghoriad. "Cwmpasu".

11. CYLLID Minute 63/2007

11.1

	Gweinydd.	Cynnal..	Ad.137	TAW
INCWM				
Grant Llwybrau Cerdded CSC Cerddwyr Llambed		620.24		
GWARIANT				
	£	£	£	£
Cyflog y clerc: net – 9/12-31/12	221.83			
Treth and IC 9/12-31/12	46.74			
Seminar CynllunioULLCCyng C.Barton	25.00			
Gwres & Golau 9/12-31/12	14.83			
Goleuadau Nadolig		459.56		80.42
Coeden Nadolig			10.00	
Neuadd FictoriaMarchnad Ieir21/12/07	40.00			
Neuadd Fictoria : Derby & Joan X5	50.00			
BT Anfoneb & BandLlydan	107.34			
Yswiriant Zurich	1,312.02			18.79
Hyfforddiant Maes-Chwarae-y Maer		125.00		21.88
System PlayWorld Blociau Craig		3,995.00		699.13
Neuadd y Dref: Cyfarfodydd y Cyngor Tref x 5	100.00			
LightFoot Grant Llwybrau Cerdded CSC :Cerddwyr Llambed		620.24		108.54
CTCC MLL Telecom 1/01-7/01 (cyn)		368.82		64.54
CTCC MLL TELECOM Rhag. 2007	1,633.34			285.83
Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion			50.00	
Gŵyl Dewi Drwg			250.00	
CYFANSWM	3,551.10	5,568.62	310.00	1,279.13
CYFANSWM Y GWARIANT	**£10,708.85**			

11.2 **Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Cymru** Caerdydd a'r Cylch 2008 am y rhodd o £100.

11.3 **Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth ariannol** oddi wrth y sefydliad *Cyngor Ar Bopeth* Aberystwyth. Penderfynwyd gofyn am y Fantolen Arian a manylion am y wasanaeth a gynigant yn Llambed cyn dod i unrhyw benderfyniad.

11.4 **Penderfynwyd i wahodd Gwyneth Jones Age Concern**, **Ceredigion** i'r cyfarfod nesaf y Cyngor Tref, er mwyn dysgu mwy am y sefydlaid ac i ystyried y posibilrwydd o gyfrannu'n ariannol.

11.5 **Cytunwyd i beidio a chyfrannu'n ariannol tuag** at y sefydliadau *Relate* a'r *Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.*

12. IS-BWYLLGORAU

Cofnod 64/2007

12.1 **LLWYBRAU CERDDED** (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

12.1.1 **Cunllun Llwybrau Cymunedol 2008-09 CSC**: Mae cais am grant o £1,000 wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar gyfer trwsio a chynnal llwybrau a gosod sticil mewn mannau penodedig.

12.1.2 **Hyfforddiant Arolwg Maes Chwarae 23/11/2007**: Mynegodd y Maer ei fod wedi llwyddo'n yr arholiad ar gyfer arolygi meysydd chwarae a'i fod yn gymwys i archwilio Parc-yr-Orsedd yn achlysurol yn ystod y 3

blynedd nesaf. Ystyriwyd un o'r blociau o graig a osodwyd yn ddiweddar yn y parc ac oherwydd resymau Iechyd & Diogelwch teimlodd y dylid ei symud i safle mwy diogel. Penderfynwyd cysylltu â'r cyflenwyr.

12.2GOLEUADAU STRYD

12.2.1 **Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i** ofyn a ydy'n bosibl i ymgymryd â gwellianau i'r goleuadau stryd ar Heol y Bryn, Llanbedr PS gan ddefnyddio deunyddiau arbed ynni na sydd yn gwneud drwg â'r amgylchfyd. Mae angen golau addas hefyd ym Mharc-yr-orsedd. Mae angen goleuadau eraill mewn safleodd eraill yn y dref ond tybed a fyddai'n bosibl i gychwyn ar Heol y Bryn.

12.2.2 **Penderfynwyd i adrodd f**od golau stryd sydd wedi ei leoli o flaen yr Orsaf Bost, Teras yr Orsaf yn ddiffygiol.

12.3CAMERAU TELEDU CYLCH-CYFYNG

12.3.1 **Derbyniwyd yr Adroddiad Misol (Rhagfyr 2007) oddi wrth y Cyngor Sir yn** cyfleu bod problemau a wnelo ag "ansawdd y lluniau'n" bodoli'n gyffredinol ac ar un o'r camerau does "dim llun".

12.3.2 **Mae'r lluniau wedi eu trosglwyddo o'r Rhwydwaith MLL** i'r Rwydwaith Ceredigion ar ddechrau Rhagfyr 2007 ac wedi profi'n llwyddiannus. Mae cysylltiad Cyngor y Dref a MLL Telecom wedi ei dorri o'r 7fed Ionawr (yn disgwyl cadarnhad swyddogol). Mae cadarnhad yn ymwneud â'r cytundeb newydd yn dal i'w ddisgwyl oddi wrth y Cyngor Sir.

12.4PALMANTAU

Bydd gwelliannau'n cael eu hymgymryd i balmantau'n

- Ymestyn o'r Feddygfa i'r Sgwâr &
- Heol y Porthmyn

13. U.F.A.
Cofnod 65/2007

13.1 **Penderfynwyd i ddatgan llogyfarchion i Mrs Judith Walters ar gerdded pellter** hir Wal Fawr Tseina, er mwyn codi arian ar gyfer y Sefydliad Geidiau'r Merched.

13.2 **Estynnwyd gwahoddiad i gynghorwyr** i ddigwyddiad *Masnach Deg* yn Eglwys San Thomas ar Ddydd Sadwrn yr 8fed o Fawrth am 2pm.

13.3 **Penderfynwyd i drefnu cyfarfod â Mr Freeman, Curadur Amgueddfa** Ceredigion gyda'r bwriad o uwchraddio'r arddangosfa bresennol y Llyfrgell ac i benderfynu ar gynlluniau ar gyfer y storio ac arddangos artiffactau'r Cyngor Tref.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:10pm.

14. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**: Nos Iau 28ain Chwefror am 7:30pm.

----------**Cadeirydd/Dyddiad**